**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM/05045/12

Yr Athro Herve Le Bihan

herve.lebihan@uhb.fr

9 Chwefror 2012

Annwyl Herve,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch neges e-bost dyddiedig 11 Ionawr lle'r oeddech yn gofyn am gyllid fel y bo modd parhau i gynnig cwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Roazhon (Rennes).

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ac mae am gefnogi'r iaith, a rhoi cyfle i ddinasyddion Cymru ddefnyddio'r naill neu'r llall o ddwy iaith swyddogol Cymru. Bydd yn pwysleisio hyn yn ei strategaeth iaith Gymraeg newydd, "Iaith Fyw, Iaith Byw" a fydd yn cael ei chyhoeddi ganol mis Chwefror.

Fodd bynnag, o ran eich cais, nid wyf yn gallu canfod unrhyw gyllid ar gyfer y cwrs hwn yn llinellau cyllideb Llywodraeth Cymru. Rwyf yn siŵr y byddwch yn sylweddoli bod yr hinsawdd sydd ohoni yn un anodd. Mewn hinsawdd o'r fath, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'n cyllideb mewn ffordd effeithiol ac effeithlon er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gan gadw hyn mewn cof, nid wyf y gallu ymrwymo'r adnoddau prin sydd gan Gymru i ariannu cwrs mewn sefydliad addysg uwch yn Ffrainc.

Er fy mod yn sylweddoli bod gan y Brifysgol a Chyngor Rhanbarthol Llydaw gysylltiadau cryf â Chymru, gan fod sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol, mater i'r Brifysgol yw penderfynu a ddylid ariannu'r cwrs hwn ai peidio. Rwyf yn gobeithio'n ddiffuant y bydd y Brifysgol yn gallu canfod ffordd arall o ariannu'r cwrs hwn, os dyna yw ei ddewis.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk